tafod elái

GORFFENNAF 2009

Rhif 239

Pris 60c

## Penblwydd Hapus Winnie

Llongyfarchiadau i Winnie Davies, Heol Goch, Pentyrch ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 27 Mehefin.

Ganwyd Winnie yn Nhongwynlais. Cymraeg oedd iaith y cartref a'r ardal yr adeg honno. Symudodd y teulu i Abertridwr ac yna i fferm y Graig Wen ar y Garth. Priododd â John Davies, gofalwr ceffylau Craig y Parc. Roedd hi'n hoff iawn o farchogaeth ceffylau.

Roedd Winnie yn enwog fel cantores soprano yn yr ardal a bu'n diddanu cynulleidfaoedd mewn cyngherddau yn yr Hen Neuadd Ysgol a Chapel Horeb. Bu'n aelod ffyddlon o'r W.I. ac mae hi'n parhau yn brysur yn y pentref, yn siopa ac yn garddio.



Mae hi'n hoff iawn o ddarllen a gwylio chwaraeon ar y teledu.

Ar ran y Cyngor Cymuned a thrigolion yr ardal cyflwynwyd twb o flodau a phlanhigion iddi hi gan y Cynghorydd Sheila Dafis.

## Pianydd o fri

Llongyfarchiadau mawr i Siwan Mair Rhys, Creigiau, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth (Perfformio), Coleg Cerdd a Drama Cymru.

Yn ystod ei chyfnod yn y Coleg, bu'n ddigon ffodus i ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Cerddor y Flwyddyn, ddwywaith!, Gwobr y Cyfeilydd, a'r Wobr Concerto. Rhan o dderbyn yr olaf o'r rhain oedd cael perfformio'r concerto gan Bartok, mewn cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant yn ddiweddar, gyda cherddorfa symffoni'r Coleg yn gefndir iddi (gweler y llun).

Ym mis Medi, bydd Siwan yn parhau ei hastudiaethau perfformio drwy ddilyn cwrs ôl-radd yn Roazon (Rennes), prifddinas Llydaw, dan arweiniad y pianydd Alexander Léger.

Pob lwc iti yn Llydaw, Siwan – a dim gormod o fez nos!



## Arloeswyr Cwrs i Gynorthwywyr Dosbarth



Mewn seremoni yn y Senedd gwobrwywyd Cynorthwywyr Dosbarth yn Ysgolion Cymraeg Caerdydd a Rhondda Cynon Taf gan Jane Hutt, y Gweinidog Addysg, am gwblhau cwrs gloywi iaith Cymraeg ar gyfer Cynorthwywyr Dosbarth sy'n gweithio gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Ysgogwyd y cwrs gan Hywel Jones, Adran Addysg Cyngor Caerdydd, a darparwyd y cwrs gan diwtoriaid o Brifysgol Morgannwg.

**Plant Ysgol Creigiau yn perfformio yn Tafwyl**



### Cyfarfod Blynyddol Papur Bro Tafod Elái

**7.00yh Nos Iau, 16 Gorffennaf**
**Yng Nghanolfan Gymunedol Garth Olwg**

**Mae'r papur bro yn cael croeso arbennig gan bawb sy'n ei ddarllen ond mae angen sicrhau ei ddyfodol.**

Dewch i'r cyfarfod i ddangos eich cefnogaeth.

# tafod elái


**_GOLYGYDD_**
**_Penri Williams_**
**_029 20890040_**

**_HYSBYSEBION_**
**_David Knight 029 20891353_**
**_TRYSORYDD_**
**_Elgan Lloyd 029 20842115_**
**_CYHOEDDUSRWYDD_**
**_Colin Williams_**
**_029 20890979_**

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Medi 2009
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
31 Gorffennaf 2009

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**


**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**





Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a Chanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg yn cyflwyno




## 'CF1 yn CF38'

**Noson o adloniant a hwyl gyda'r côr a ffrindiau**

**7.30pm, Nos Wener, 10/07/2009**
**Canolfan Garth Olwg, Pentre'r Eglwys**

**Tocynnau £5 ☎01443 219589**

Elw'r Noson: Plant Anghenus India (Reaching the Unreached)

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Canolfan Dysgu Gydol Oes Garthholwg Lifelong Learning Centre

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**Angela Cavil D.O. & Associates**

PONTYPRIDD
Osteopathic Clinic Ltd

Sefydlwyd 1988

**Rydym yn darparu Triniaeth Effeithiol a Phroffesiynol ar gyfer:**
Anafiadau Chwaraeon · Poen Cefn · Nerf Clwm · Anafiadau Clun a Pen-glin · Pen Tost Tyndra · Poenau Gwddf ac Ysgwydd · Osteoathritis · Chwiplach · Babanod a Phlant

*Ymweliadau Cartref*
*ac Apwyntiadau yn yr Hwyr,*
*Darparu Adroddiadau Meddygol,*
*Gofrestrwyd gyda BUPA a PPP.*

**Ffôn: 01443 485302**
www.pontypriddosteopaths.co.uk
**9 Gelliwastad Road, Pontypridd**
**CF37 2BW (dros ffordd i'r Miwni)**

Aelod o GOsC a BOA


# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Cynhaliwyd Diwrnod Arbennig o Hwyl yn y Ganolfan Gymunedol yn Hendreforgan ddydd Sadwrn Mehefin 6ed. Trefnwyd gweithgareddau yn y Neuadd ac eraill allan ar y cae ond yn anffodus daeth y glaw trwm ac roedd yn rhaid cynnal pob peth dan do. Roedd y Brif Neuadd yn llawn o stondinau o bob math - rhai gan bobl oedd am werthu nwyddau ac eraill ar gyfer codi arian i fudiadau elusennol a rhai er mwyn arddangos beth sy'n mynd ymlaen yn y Gilfach megis Arlunio, Crochenwaith a Chwiltio. Roedd rhaid i'r band newydd 'Face Value' berfformio yn y Neuadd yn lle'r awyr agored. Cafwyd perfformiadau gan blant 'Grŵp Drama Sant Barnabas' a bu Côr Merched Tonyrefail yn diddori.

Eleni mae Cwmni Drama Gilfach Goch ar wahoddiad Radio Wales wedi bod yn dathlu 70 mlynedd ers cyhoeddi'r nofel 'How Green Was My Valley' gan Richard Llewelyn yn 1939. Seiliwyd y nofel ar Gilfach Goch a bu'r Cwmni Drama yn darllen darnau o'r Nofel. Ar ôl y darlleniad dadorchuddiwyd cofeb i Richard Llewelyn a'i Nofel gan yr Aelod Seneddol Huw Irranca Davies. Un o'r stondinau yn y Neuadd oedd un y Dysgwyr gan Anna Lee Price ac fe gafodd ddigon o enwau i gael Dosbarth Blasu. Mae'r dosbarth yn cael ei gynnal ar fore dydd Llun o 10 o'r gloch tan 12. Croeso cynnes i bawb.


## RIVERVIEW CHIROPRACTIC

81 HOPKINSTOWN ROAD,
PONTYPRIDD, CF37 2PS

01443 650634

AM DRINIAETHAU EFFEITHIOL AM BOEN

*GWDDF A CHEFN*
*PEN TOST*
*YSGWYDDAU A PHEN-GLINIAU*
*"WHIPLASH"*
*SCIATICA*
*AC*
*ANAFIADAU CHWARAEON*

YN OGYSTAL AG ASESIAD
IECHYD LLAWN
MEWN AWYRGYLCH
HAMDDENOL A GLAN

DR OLWEN A GRIFFITHS
BSC. (HONS) CHIRO

GCC & BCA COFRESTRIEDIG

# PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Llongyfarchiadau**
Mae Megan a Mostyn Davies, Graigwen newydd ddathlu eu Priodas Ruddem - pob dymuniad da ac ymlaen at yr Aur!

**Merched y Wawr.**
Cafwydd noson ardderchog o adloniant yng nghwmni Adran Bro Taf ym mis Mehefin. Bydd cyfarfod olaf ein blwyddyn gyntaf nos Iau, Gorff 9fed. Byddwn yn cwrdd am 6.00 ym maes parcio tafarn y Llanfabon Inn, Nelson. Bydd Derec Stockley yn ein tywys ar daith gerdded gan orffen yn y dafarn am rywbeth i'w fwyta. Croeso cynnes i bawb - os nad ydych am gerdded beth am gwrdd â ni yn y dafarn tua 7.30-8.00. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Margaret Francis 01443 492838

**Pen blwydd hapus.**
Llongyfarchiadau i ddwy o ferched Pontypridd - roedd Margaret Francis, Parc Prospect yn dathlu penblwydd arbennig mis diwethaf a Dilys Davies, Maes y Deri mis yma. Cewch ddigon o gyfle i deithio ar y bysiau am ddim o hyn mlan!!

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Swyddfa Newydd
Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
**01443 407570**
**www.menteriaith.org**

**Sioe Drama Dâr**
Bydd Cwch yr Hud sef sioe terfynol cynllun Drama'r Fenter, Drama Dâr, yn cael ei pherfformio Nos Fawrth, 14eg o Orffennaf yn Theatr Sefydliad Cwmaman. Pris mynediad yw £4.00. Dewch yn llu i weld sioe sydd wedi ei hysgrifennu a'i pherfformio gan y plant sydd yn cymeryd rhan yn y cynllun.

**CF1 yn CF38**
Bydd côr CF1 a'u ffrindiau yn perfformio yn Theatr Garth Olwg, Pentre'r Eglwys nos Wener y 10fed o Orffennaf am 7.30. Bydd elw'r noson yn mynd at helpu blant anghenus India. Tocynnau ar gael o'r theatr.

## Llwyddiant Clwb Carco



Llongyfarchiadau i aelodau Clwb Carco Dolau sydd wedi llwyddo, er gwaethaf cystadleuaeth ffyrnig, i gael eu gwaith wedi'i gynnwys mewn llyfr afterschool club.net yn ddiweddar.
Llongyfarchiadau mawr iawn iddyn nhw i gyd.

**Cynllun Gofal**
Eleni bydd Menter Iaith yn cynnal cynllun gofal drwy'r dydd rhwng Gorffennaf 27ain ag Awst 21ain Yn Ysgol Uwchradd Garth Olwg, Pentre'r Eglwys.
Bydd cyfle i blant oed cynradd ( Dosbarth derbyn hyd blwyddyn 6 ) i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol, adloniannol a chwaraeon tra'n derbyn gofal gan staff cymwys.
Bydd y niferoedd yn gyfyngedig felly os oes gennych ddiddordeb mewn manteisio ar y cyfle i'ch plant dderbyn y gofal gorau, drwy gyfrwng y Gymraeg yna cofrestrwch ar gyfer ein cynllun e-chlysur ni. Mae manylion o ran sut i archebu a chost yn cael ei gyhoeddi cyn hir ar e-chlysur neu o swyddfa'r Fenter 01443 407570.



**Ymddeoliad hapus**
Mae cyfnod yn dod i ben i dri phennaeth ysgolion Cymraeg yr ardal. Dymuniadau gorau i Gwenllian Jenkins, Nelson- prifathrawes Ysgol y Castell, Caerffili, Eirwyn Jos, Trallwn - prifathro Ysgol Llwyncelyn a Dilys Davies, Graigwen - prifathrawes Ysgol Llyn y Forwyn.



**Adran Bro Taf yn Merched y Wawr**

**Ail-gwrdd ar ôl 30 mlynedd**



Catrin Morris yn ail-gwrdd â Janice Erskine yng nghyfarfod Merched y Wawr Pontypridd. Roedd Janice yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail pan oedd Catrin a'i brodyr a'i chwaer yn ddisgyblion yno. Doedden nhw ddim wedi cwrdd ers dros 30 o flynyddoedd! Bellach mae Janice wedi ymgartrefu yn Efail Isaf.

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*

**Swydd yn y Trysorlys**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gareth Holvey sy newydd gychwyn yn ei swydd newydd yn y Trysorlys yn Whitehall, Llundain. Bydd yn aelod o staff yr Adran Gyllid Rhyngwladol o fewn y Trysorlys.

**Gwasanaeth clodwiw!**
Chwe deg tair o flynyddoedd! Dyna gyfanswm blynyddoedd gwasanaeth Mr Brian Evans, Mrs Judith James a Mrs Haulwen Hughes yn ysgol Gynradd Creigiau! A 'does 'run ohonynt yn edrych ddiwrnod dros ei deg ar hugain oed! Da iawn chi! Pob dymuniad da i chi'ch tri yn eich ymddeoliad – gwelir eich colli yn fawr – ond mae'n siwr na fyddwch yn ddieithr!

Ar yr un pryd estynnwn groeso i Mrs Delyth Kirkman fydd yn cychwyn ar ei dyletswyddau fel dirprwy brif-athrawes ym mis Medi.



Deri Morgan; Aimee Christopher Jones (enillydd); Ms T Anne Morris (Pennaeth); Lloyd Phillips; Hollie Davies



**Taith Gerdded Merched y Wawr**

Cafwyd noson hynod o ddifyr o dan arweiniad Jen MacDonald i gloi calendr gweithgareddau Cangen y Garth. Daeth criw da ynghyd yn Cosmeston ddiwedd y pnawn ac fe'n tywyswyd o gwmpas y pentref canol-oesol gan un o'r 'trigolion' gwybodus. Wedi awr o brofi bywyd yn y pentref – ymlwybrodd pawb o gwmpas y llynnoedd dan eu pwysau a mwynhau byd natur ar ei orau. Wedi'r cerdded – roedd pawb yn awchu am fwyd! A dyna a gaed – pryd hyfryd a chwmpeini llawen iawn yn yr Harvesters cyfagos. Diolchwyd i Carol Penri a'i phwyllgor am lywio gweithgareddau'r flwyddyn mor ddeheuig. Byddwn yn ail-ymgynnull fel Cangen ym mis Medi – ail nos Fercher y mis yw hi fel arfer – felly gwyliwch y gofod a dewch i fwynhau cwmni difyr, llawn bywyd aelodau eich cangen leol o Ferched y Wawr. ⇨

**Penwythnos y Gerddi Agored**
A hithau'n wythnos cyn dathliadau carnifal Creigiau penderfynwyd agor rhai o erddi hyfrytaf Creigiau i'r cyhoedd ddydd Sul, 21 Mehefin. Breuddwyd Jen MacDonald a chriw bychan o gyd-arddwyr brwd oedd hyn – a gobeithir adeiladu ar lwyddiant eleni yn y blynyddoedd i ddod. Isod fe welwch luniau a dynnwyd ar y pnawn Sul ac efallai y gwnewch adnabod ambell i ardd. Ymhlith y gerddi oedd ar agor oedd gardd hyfryd Dafydd ac Alison ym Mrynteg, gardd ddiddorol Lesley Wheeler ym Maes y Nant, gardd dlws dros ben Bill a Chris Malcolm ym Mharc Castell y Mynach ac wrth gwrs gardd hynod Jen a Mike ym Mhen y Bryn. Hyfryd oedd gweld cynlluniau artistig, blodau anarferol, cuddfannau bychain rhwng y coed, deunydd clyfar o ddwr – y cyfan yn rhoi syniad i'r ymwelwyr o'r hyn y gellid ei wneud gyda dogn go lew o ddychymyg, gwaith caled ac ychydig o wybodaeth am arddwriaeth! Felly gobeithio y gwelwn yr







Jen MacDonald a fu'n trefnu'r diwrnod



Gin ac Ian Harvey, ei gwr yn Stockholm



# Lansio logo newydd Ysgol Gyfun Garth Olwg

*"Mae'n gynllun cyffrous, deniadol a chyfoes ac rydym yn arbennig o falch bod disgybl yn yr ysgol wedi llunio logo o safon arbennig"*

Yr wythnos hon cyhoeddwyd enillydd cystadleuaeth dylunio logo newydd ar gyfer Ysgol Gyfun Garth Olwg. Roedd y gystadleuaeth wedi ei chynnal gan Gyngor yr Ysgol oedd wedi sicrhau gwobrau deniadol i'r enillwyr terfynol yn ogystal â'r fraint o gael gweld y logo yn cael ei fabwysiadu fel bathodyn newydd i'r ysgol.


Dyluniwyd y logo buddugol gan Aimee Christopher-Jones sy'n ddisgybl Blwyddyn 9 yn yr ysgol ac roedd wedi cyfuno elfennau o'r hen logo yn ei chynllun newydd. Mae ei chynllun yn dangos enw'r ysgol yn glir ond hefyd yn ddyluniad sy'n cyfuno y llythyren G am Garth Olwg a'r Gymraeg, ynghyd a dyluniad o Fynydd y Garth a cheg yn siarad.

Roedd Aimee wrth ei bodd, "Mi wnes i ddefnyddio CoralDraw i ddylunio'r cynllun a chadw lliwiau gwyrdd, du a gwyn yr ysgol. Roedd yn sioc braf clywed imi ennill"

Dywedodd Ms T Anne Morris, Pennaeth yr Ysgol, "Rydym yn hynod falch o'r holl ddyluniadau a fu'n rhan o'r gystadleuaeth hon – y rheini gan ddisgyblion yr ysgol ynghyd â'r llu a ddaeth o'n hysgolion cynradd cysylltiedig. Rydym wrth ein bodd â dyluniad Aimee - mae'n un clyfar a chyfoes hefyd ac yn un y gall pob aelod o gymuned yr ysgol ymfalchio ynddo. "

Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn dilyn penderfyniad diweddar y Corff Llywodraethwyr i dderbyn enw Ysgol Gyfun Garth Olwg fel enw swyddogol Ysgol Gyfun Rhydfelen. Dywedodd Cadeirydd y Llywodraethwyr, Dr Dewi Hughes, "Roeddem yn frwd i gymryd barn disgyblion, athrawon a rhieni i ystyriaeth wrth ddylunio logo, ac roeddem wrth ein bodd pan lansiwyd y gystadleuaeth gan aelodau o Gyngor yr Ysgol i holl ddisgyblion Garth Olwg a'r disgyblion o flwyddyn 6 yr ysgolion cynradd."

Bydd y logo newydd ar wisg ysgol Blwyddyn 7 o Fis Medi ymlaen, tra bydd elfennau eraill o wisg yr ysgol yn parhau yr un fath




Mae'r haf wedi cyrraedd ac mae plant Dosbarth 1 wedi bod yn brysur iawn yn creu gardd wrth ochr eu dosbarth. Maent hefyd wedi creu bwgan brain i edrych ar ôl eu ffrwythau, llysiau a pherlysiau. Nid Dosbarth 1 yn unig sydd wedi bod yn plannu. Mae Dosbarth 4 hefyd wedi bod yn garddio ac wedi plannu Teim, Persli a Blodau'r Haul. Y cyfan sydd ei angen nawr yw digon o haul ac ychydig o law!

Ddydd Mercher 17eg Mehefin, aeth Dosbarth 2 i Gastell Coch. Aethant i mewn i bob ystafell. Aethant hefyd i mewn i'r dwnjwn arswydus a'r siop. Prynodd rhai o'r plant gleddyfau pren. Roedd bywyd yn beryglus iawn i'r athrawon! Oherwydd y glaw, roedd rhaid iddyn nhw fwyta'u brechdanau yn y cysgod. Ar ôl eu hymweliad â'r castell, aethon nhw ar y bws i Theatr Glan-yr-Afon yng Nghasnewydd i wylio perfformiad o'r sioe Rwtsh Ratsh Rala Rwdins. Hoff gymeriad Ioan Evans oedd Strempan. Hoffai Dosbarth 2 ddiolch i Mrs Rosser, Mr Ellis, Mrs Preest a Mrs Stallard am ddod gyda nhw ar y trip.

Ddydd Sadwrn 13eg Mehefin, cymerodd blant dosbarthiadau 1 a 2 rhan yn Tafwyl Menter Caerdydd. Roedd y Tafwyl yn cael ei chynnal yn y Mochyn Du yn ymyl gerddi Sophia. Gwisgodd y plant i fyny fel cymeriadau o Wlad y Rwla. Roedd rhai wedi gwisgo fel ysbrydion, rhai fel gwenyn, rhai fel gwrachod, rhai fel cathod, y Dewin Dwl a'r Dewin Doeth. Cafodd pawb hwyl yn y tywydd braf.

Fe ddaeth Cwmni Theatr Iolo i berfformio 'Garddwr Y Gwanwyn' o flaen Dosbarthiadau 5 a 6. Neges y sioe oedd defnyddio'ch dychymyg a pheidio dibynnu ar gemau cyfrifiadurol fel modd o adloniant. Fe fwynhaodd y dosbarthiadau'n fawr iawn. Ymwelydd arall oedd Marc a'i byped Kevin o 'Mega-U' i'n dysgu i beidio cymryd cyffuriau ac i wneud y dewisiadau cywir yn ein bywyd.

Mae Dosbarth 6 wedi cael amser hwylus ond prysur iawn y mis yma. Y 13eg Mai fe aethant i Blasmawr am ddiwrnod o chwaraeon lle y buon nhw'n gwneud llawer o weithgareddau fel: creu gemau, codi pebyll i fyny, chwarae gemau heb siarad, dringo walydd, chwarae tag rygbi a llawer mwy!

Wedyn ar 11 Mehefin fe aethant eto i Blasmawr ond y tro yma am ddiwrnod o wersi. Fe aethant mewn grwpiau gyda phlant o ysgolion eraill a cafon nhw wersi gwahanol fel: Sbaeneg, Ffrangeg, Cymraeg, Hanes, Addysg Grefyddol, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth a.y.b. Fe ddaeth athrawon drama a rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 o Blasmawr i'n gweld ni yn Ysgol Creigiau un diwrnod cyn cael ymweliad arall gan yr adran gerddoriaeth o Blasmawr. Roedd y ddau ddiwrnod yn llawn cyffro ac yn ein gwneud yn gyffrous am symud i Blasmawr!

Llongyfarchiadau i Ddosbarth 6 a Class 7 am ennill gêm bowlio yn erbyn ysgol Pentyrch ar y l6eg Mehefin! Fe enillon nhw 81 i 48, da iawn chi! Da iawn hefyd i fechgyn o Flwyddyn 6 am chwarae criced yng nghystadleuaeth Swalec lawr yng Ngherddi Soffia. Enillon nhw 2 gêm a cholli 1 felly daethant yn ail yn y grŵp. Llongyfarchiadau hefyd i'r Triawd Pres a ddaeth yn 3ydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a hefyd i Mabli Tudur a'r Grŵp Llefaru Ail Iaith am berfformiadau gwych! Llongyfarchiadau hefyd i'r Adran lau Saesneg am ennill gwobr am eu gwaith hanes.

**Hwyl Fawr**

Hwyl fawr i Mrs James - Dosbarth 3, Mrs Hughes - Dosbarth 2 a Mr Evans - Class 7 sydd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor. Mae pawb yma yn Ysgol Creigiau am ddweud DIOLCH YN FAWR IAWN am bob cyfraniad i fywyd yr Ysgol ar hyd y blynyddoedd ac yn dymuno ymddeoliad hapus iawn i chi. Cofiwch alw heibio unrhyw bryd i weld a yw pawb yn bihafio!

## Creigiau (parhad)

**Graddio**

Llongyfarchiadau mawr i Caryl Griffiths ar ennill gradd 2i mewn Seicoleg o Brifysgol Caerdydd. Bydd Caryl yn cychwyn ar ei gwaith yn Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth ym mis Medi fel rhan o'i hastudiaethau pellach. Pob dymuniad da i ti, Caryl!

**Marathon Stockholm**

Aeth Gin MacDonald yn go bell oddi cartref i redeg ei Marathon ddiweddara! I Stockholm – fel mae'n digwydd! Roedd Gin ynghyd â phedair o'i ffrindiau o Adran Physiotherapy, Ysbyty'r Waun ymhlith y 17,000 o redwyr oedd yn cymryd rhan ym Marathon Stockholm y mis diwetha. Gyda'r tymheredd yn codi i chwe gradd ar hugain roedd yn dywydd oedd yn ffafrio'r cefnogwyr yn fwy na'r rhedwyr druain! Llwyddodd Gin a'i thîm i godi dros £2000 at Achos Ymchwil Cancr – rhwng y nawdd a dderbyniwyd a'r Gig anhygoel a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Gogledd Llandaf gyda'r *Treacles* a *Shadwell and the Shads*! Os nad ydych wedi cael cyfle i'w gweld a'u clywed yn perfformio – gwyliwch y gofod – maent o gwmpas yn perfformio yn eich ardal chi – efallai! Llongyfarchiadau bawb!

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Gareth a Caryl Hall Williams a'r teulu, heol y Ffynnon yn eu gofid o golli Carys, chwaer Gareth yn frawychus o ifanc. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich gofid a'ch hiraeth.

**Hawl i Holi**
Bu Radio Cymru yn recordio rhaglen o Hawl i Holi yn neuadd y pentref, ddydd Sul, Mehefin 21ain. Y Cadeirydd oedd Dewi Llwyd a'r panelwyr oedd Ieuan Wyn Jones AC, Glyn Davies, Bethan Darwin a Geraint Talfan Davies. Holwyd cwestiynau treiddgar ac amserol a chafwyd trafodaeth ddiddorol a bywiog yn arbennig gan y bobl ifanc yn y gynulleidfa. Darlledwyd y rhaglen Nos Lun, Mehefin 22ain.

**Serennu yn y Bae**
Llongyfarchiadau i blant y pentref fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Cafodd Eleri Roberts, Nantcelyn, y drydedd wobr ar yr Unawd Telyn o dan 12 oed a Trystan Gruffydd, Nantcelyn yr ail wobr am Ddawnsio Gwerin Unigol i fechgyn Blwyddyn 9 ac iau. Llongyfarchiadau hefyd i aelodau Adran Bro Taf sydd yn byw yn y pentref am gipio amryw o wobrau yn ystod yr wythnos ac am ddawnsio gyda graen yn y prif seremoniau ar ddau achlysur. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

**Dymuniadau gorau**
Dymuniadau da i gorau'r pentref a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala ym mis Awst. Bydd y tri chôr sydd yn ymarfer yn y pentref, Côr Godre'r Garth, Côr Merched y Garth a Pharti'r Efail yn cystadlu. Pob hwyl i'r tri chôr.

## Y Tabernacl

**Gwasanaeth Arbennig**
Cafwyd gwasanaeth tra gwahanol yn Y Tabernacl ar fore Sul, Mai 31ain. Huw Roberts oedd yng ngofal yr oedfa. Gwahoddwyd Ann Dixey a Gwerfyl Morse i ddewis eu hoff emyn neu gân a rhoi eu rhesymau am eu dewis. Fe ganodd Beth a Huw Roberts eu hoff gân. Uchafbwynt yr oedfa oedd cyfraniad y ddwy chwaer Jaqueline a Deborah Marshall a fu'n adrodd eu hanes ac yn arwain y gynulleidfa mewn sesiwn o ganu gospel.



**Yr Ocsiwn**

**Derbyn Aelod Newydd**
Achlysur hapus i ni yn Y Tabernacl fore Sul, Mehefin 7fed, yn yr Oedfa Gymun oedd derbyn Nia Thomas, Penywaun yn aelod o'r eglwys. Bu Nia, merch John a Pat Edmunds yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul yn ystod ei phlentyndod ac mae wedi bod yn mynychu'r oedfaon yn gyson ers amser bellach. Croeso cynnes, Nia.

**Yr Ocsiwn**
Diolch i bawb a gefnogodd yr Ocsiwn Fawr yn Neuadd Pentyrch ar Fehefin y 6ed. Llwyddwyd i godi cyfanswm o £2,700. Diolch i Brian Davies am ei egni a'i frwdfrydedd fel arwerthwr ac i Gwilym Treharne am drefnu'r noson.

**Te Mefus.**
Bydd Te Mefus yng ngardd Ros Evans yn 3 Ffordd Gwern, Rhydlafar o hanner awr wedi pump ar nos Fercher, Gorffennaf 1af. Bydd elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Ymgyrch De Affrica.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Beth a Huw Roberts ar enedigaeth merch fach, Mari Gwen.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst**
Gorffennaf 5. Gwasanaeth Cymun o dan arweiniad ein Gweinidog.
Gorffennaf 12. Y Parchedig Ddoctor Noel A. Davies
Gorffennaf 19. Sul y Cyfundeb.
Gorffennaf 26. Cyd-addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth
Awst 2. Gwasanaeth Cymun o dan arweiniad ein Gweinidog
Awst 9. Cyd-addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth
Awst 16. Allan James yn Y Tabernacl
Awst 23. Cyd-addoli ym Methlehem, Gwaelod y Garth
Awst 30. Aelodau Efail isaf yn Y Tabernacl.

# TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol:
Sylfia Fisher

**Llwyddiant Geraint**
Llongyfarchiadau i Geraint Lewis, Crud yr Alaw, Llanilltud Faerdref ar ennill gwobr arbennig Clwb Rygbi Llanilltud Faerdre sef y chwaraewr ieuenctid ddangosodd gynnydd mwyaf y tymor eleni. Brysied y tymor nesa ynte, Ger!

**Symud Tŷ**
Dymuniadau cynnes i Catrin, Heulyn, Brengain a Mabon yn eu cartref newydd ym Mhenywaun, Efail Isaf. Mae newid aelwyd yn her a sialens i bawb ond dylai fod yn fonws nad yw'r ardal newydd yn rhy ddieithr! Pob hwyl ichi fel teulu.

## Capel Salem

Mae'n wir i ddweud fod ein Gweinidog, y Parchedig Peter Cutts, yn arwain y Gwasanaethau i gyd yn ddi-ffael bron bob Sul o'r flwyddyn. Roedd ef a Lynn, beth bynnag, wedi addo gwyliau iddynt eu hunain yn y Norwegian Fjords pan ddeuai'r cyfle ac iechyd Lynn yn ffafriol. Daeth pethau i rym yn ystod pythefnos olaf Mehefin a gobeithir yn fawr fod yr edrych ymlaen wedi bod yn werth chweil.

Estynnir ein diolch i'r Parchedig Ray Vincent am lenwi un Sul ar ei hyd a gwneud hynny gydag arddeliad. Kathryn Jenkins oedd i gyflenwi ar yr ail Sul ond daeth y newydd syfrdanol o drist am ei marwolaeth sydyn, a hithau ond 47 oed, ddechrau Mai yn Hengoed, Llangybi lle'r oedd hi ac Allan, ei gwr, wedi ymgartrefu. Roedd Kathryn yn hanu o Donypandy ac, hyd iddi sefydlu yn Llangybi, roedd yn ymwelydd cyson â Salem. Cydnabyddir bod ei marwolaeth yn golled aruthrol i Gymreictod yn gyffredinol ac roedd ei chyfraniad a'i brwdfrydedd at waith Cymdeithas Emynau Cymru yn amhrisiadwy o werthfawr. Ystyrir Kathryn, yn ddi-os, yn bennaf awdurdod ar William Williams, Pantycelyn. Cydymdeimlwn ac anfonwn ein cofion at Allan.

Newyddion calonogol yw'r ffaith fod Morfydd Morgan wedi ymgartrefu'n gysurus yng Nghae Glas. Mae Mrs. Gwyneth James, cyn-organyddes Salem, yno ers peth amser. Gwerthfawrogir yn fawr y mewnbwn ffyddlon a dderbyniwyd gan Gwyneth a Morfydd. Estynnwn ein cofion cynhesaf atoch eich dwy.

Hyfryd oedd rhannu'r hwyl ar y Noson Barbeciw ddechrau Mehefin, - cyfle perffaith hefyd i rai i fwrw'u prentisiaeth fel cogyddion dan arweiniad John Wilson! Coron y noson oedd yr adloniant gan Gerddorfa'r Capel. Sylweddolir mor ffodus mae'r Achos yn Salem i dderbyn arweiniad gan ein Cerddorfa bob yn ail Sul.

Edrychir ymlaen ag awch at ein gwibdaith flynyddol ar 11 Gorffennaf. Eleni byddwn yn troi ein golygon at y Gorllewin ac, yn benodol, i Ddinbych y Pysgod. Croeso cynnes iawn ichi i ymuno â ni.

# Ysgol Gymraeg Castellau

**Ymweliadau.**

**Blynyddoedd Cynnar**

Ar ddechrau Mis Mehefin aeth dosbarthiadau'r Blynyddoedd Cynnar ar daith i Borthcawl. Roedd y plant wrth eu bodd yn casglu crancod ac adeiladu cestyll tywod. Diolch i'r rhieni am ymuno gyda'r plant a'r staff.

**Blwyddyn 2**

I Borthcawl hefyd bydd taith Blwyddyn 2 eleni ar ddiwedd y mis. Byddant yn ymweld â'r Orsaf Bad Achub yno. Maent yn siŵr o fwynhau.

**Blwyddyn 1**

Aeth plant Blwyddyn 1 i Barc Bryngarw ger Bryncethin ac wrth lwc roedd y tywydd yn braf. Diolch i Dan, un o weithwyr y parc am ein tywys ac arwain saffari trychfilod trwy'r goedwig. Roedd amser hefyd i fwynhau picnic wrth y llyn a chwarae yn y parc. Diwrnod hyfryd!

**Blwyddyn 5/6**

I ganolfan Amgylcheddol Sony ym Mhen-y-bont yr aeth plant Blwyddyn 5 a 6 . Cafwyd amser prysur iawn yn edrych ar fyd natur ac ar fywyd gwyllt y pwll.

**Blwyddyn 4**

Yn lleol aeth plant Blwyddyn 4 draw i'r llyfrgell yn y Beddau i gwrdd â'r awdur Gareth Williams. Yna fel rhan o weithgareddau Addysg Gorfforol y tymor adeiladodd y plant llochesi yn y parc er mwyn mwynhau picnic amser cinio.

**Blwyddyn 3**

Yn olaf bydd plant Blwyddyn 3 yn ymweld â phentref canoloesol Cosmeston ar ddiwedd Mehefin. Byddant yn coginio bara ac arsylwi ar arfau'r cyfnod.

Bydd plant yr Adran Iau hefyd yn treulio diwrnod yn Sain Ffagan i ddathlu Hwyl yr Haf a drefnwyd gan yr Urdd ar ddechrau mis Gorffennaf.

**Llongyfarchiadau.**

Llongyfarchiadau i Ceri a Kate Jones ar enedigaeth Molly Elizabeth yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi.

**Gweithgareddau'r Gymdeithas Rieni.**

Bu'r gymdeithas yn brysur iawn yn ddiweddar. Cynhaliwyd arwerthiant cist ceir, cwis a ffair haf yn ystod mis Mehefin a chodwyd swm sylweddol er lles plant Castellau. Diolch iddynt am eu hymroddiad parod.

**Cerdded Noddedig.**

Ddydd Mercher, Mehefin 17eg cerddodd yr ysgol gyfan o amgylch tir yr ysgol. Bwriad y daith oedd codi arian tuag at yr elusen BRAKE sydd yn codi ymwybyddiaeth teuluoedd a phlant wrth gerdded i'r ysgol.



**Tesco Great Fun Run.**

Cerddodd plant Blwyddyn 1-6 10 gwaith o amgylch y cae er mwyn codi ymwybyddiaeth pwysigrwydd ymarfer a byw'n iach.

**Ymwelwyr.**

Daeth y Nyrs Karen i siarad â phlant Blwyddyn 6 a P.C.Sian Jones hefyd i siarad a thrafod egwyddorion y cynllun saff.







**Lluniau Bryngarw Ffair Haf**

**Yr awdur Gareth Williams yn Y Llyfrgell**

**Rhedeg Tesco.**


# Cymraeg i Bawb:

**Cynhadledd Plaid Cymru ar Addysg Gymraeg**
**Canolfan Fusnes Prifysgol Morgannwg, Pontypridd**
**24ain o Orffennaf**

Plaid
PLAID CYMRU

## Amserlen

9:30am
Gair o Groeso gan **Alun Ffred Jones AC, Gweinidog Treftadaeth Cymru**

9:45am – 11:05am
Sesiwn 1: (0-11) 'O'r crud' Gyda **Llefarydd Addysg Plaid Cymru, Nerys Evans AC**

11:15am – 12:35am
Sesiwn 2: (11-18) 'Cymraeg Uwchradd Gyda **Dr. Myfanwy Davies**, ymgeisydd San Steffan Plaid Cymru yn Llanelli

12:35pm – 1:20pm
CINIO – darparir cinio

1:30pm – 2:50pm
Sesiwn 3: (18+) 'Anelu'n Uwch' Gyda **Bethan Jenkins AC**

3:00pm – 4:20pm
Sesiwn 4: (0-150) 'O'r Crud i'r Bedd'; Cymraeg Gydol Oes yng Nghymru' Gyda **Rhodri Glyn Thomas AC**

4:30pm
Clô

**Costau:**
Mynychu £5.00 y pen
Stondin £10.00 y stondin
Nifer cyfyngedig, bwciwch yn gynnar!
Cysylltwch â Dyfan Powel ar 02920 475927 neu dyfanpowel@plaidcymru.org i archebu lle neu am fwy o wybodaeth

# Y Gornel Deithio



***Môr y Canoldir – La Rambla – Gaudí – La Sagrada Familia – Tapas – Pêl-droed – Cyffro - Sŵn – Cerddoriaeth – Emosiwn – Marchnadoedd – Haul – Hunaniaeth – Barcelona!***

Mae Barcelona, prif-ddinas Catalonia, yn wyllt. Mae bywyd y lle yn anhygoel, gyda cherddoriaeth, celf, blas ag arogl o gwmpas pob cornel. Y gwir yw, bod gan Barcelona bopeth. O ddinas fach romanaidd wedi ei lleoli yn berffaith rhwng y mynyddoedd a'r môr, mae hi wedi tyfu i fod yn ardal gyda phoblogaeth o dros 3,000,000, ac ymysg y gwallgofrwydd yma, mae yna rywbeth i bawb.

Wrth gwrs, dylai pob ymweliad â Barcelona gychwyn ar "La Rambla", stryd o dros gilomedr o hyd, yn llawn mwy neu lai o bopeth – cerfluniau byw; blodau amryliw; ieir, hwyaid, cwningod a chrwbanod ar werth; rwtsh twristiad; artistiaid wrthi'n peintio; bwydydd anhygoel ar werth; a phobl yn gweiddi mewn amrywiaeth o ieithoedd: Catalan, Sbaeneg, Ffrangeg, Arabeg – mae'n wych, ac os allwch chi gyrraedd y diwedd mewn un, da iawn chi! Fel un o strydoedd enwocaf Ewrop, mae'r lle wastad yn llawn dop, felly ewch yn gynnar er mwyn osgoi colli eich hun ymysg y tyrfaoedd.

Hanner ffordd i lawr La Rambla, cyrhaeddwch farchnad La Boqueria. Byth eto y gwelwch gymaint o liwiau mewn un lle! Maent yn gwerthu pob math o fwydydd yma, popeth yn hynod o ffres ac yn galw atoch i'w brynu. Mae'r sŵn, golygfa a'r arogl yn gwneud hwn un o lefydd mwyaf diddorol y ddinas. Yn sicr, byddwch yn ei chael hi'n anodd iawn i'w gadael heb gwdyn o felysion, neu mango neu ddau.

Wrth gyrraedd diwedd La Rambla cyrhaeddwch chi'r porthladd. Dyma le i eistedd ag ymlacio yn yr haul yn edrych ar y cychod hwylio, neu i fwyta paella a tapas mewn rhyw dŷ bwyta ffansi. Gallwch hefyd gael bargen gydag ambell i eitem o ffasiwn Barcelonaidd o'r Mare Magnum – canolfan siopa sydd bron yng nghanol y môr.

Yn cerdded yn nôl i fyny o'r porthaldd, dewch i'r Barrio Gotico, - yr hen ardal. Dyma oedd y Barcelona gwreiddiol. Lle anhygoel yw e gyda hen strydoedd cul yn troelli ac yn croesi ei gilydd. Bydd pob troad yr ydych yn ei gymryd yn eich arwain i lawr i ryw stryd arall hudolus, gyda balconïau cyferbyn mor agos fel petasent bron yn cyffwrdd, eu planhigion yn hongian yn rhydd oddi tanynt. Fe ddewch o hyd i siopau a thai bwyta di-ri, yn arbenigo mewn pob math o bethau, o chrempogau i bypedau, ynghyd â cherddorwyr o bob math, rhai yn chwarae offerynnau egsotig, anadnabyddus. Ond, er mwyn dod o hyd i'r llefydd mwyaf ddiddorol, mae'n rhaid wrth gwrs golli eich hunan yn gyntaf.

Y tu ôl i'r Barrio Gotico, y mae ardal Eixample, ardal y meistr Gaudí. Yn Eixample y gwelwch ei waith mwyaf pwysig, La Casa Batlló, Parc Güell, a'r Sagrada Familia byd enwog – ei gampwaith o eglwys na orffennodd byth. Mae'r Sagrada Familia yn un o symbolau mwyaf y ddinas, a gyda'i thyrrau pigog fel petasent yn ymdoddi, y ffrwythau rhyfedd a'r cymeriadau hap, mae'n rhaid ymweld â hi eich hunan er mwyn penderfynu eich barn amdani. Ond caru neu gasáu, campwaith yw hi yn wir.

Wrth gwrs, ni fyddai Barcelona yn Barcelona heb ei thîm pêl-droed. Ers ei ddechreuad yn 1899 mae "Barça" wedi sefyll fel symbol o'r hunaniaeth Catalan. Gyda'r tîm y daw hanes yr ardal, ei hiaith, a'i diwylliant. Hyd at heddiw mae'r tîm yn cadarnhau nad lle Sbaenaidd yw Catalonia, ond lle gyda gwreiddiau gwahanol, ac mae llwyddiant tragwyddol Barça yn symboleiddo cryfder y rhanbarth. Wrth wylio Barça, fe sylwch nad "dim ond gêm" neu "dim ond tîm" yw hi, ond rhywbeth llawer dyfnach.

Os am ymweld â Barcelona, mae mis Ebrill yn amser da. Cewch weld Dia de Sant Jordi ar y 23ain, diwrnod nawddsant Catalonia. Mae'r strydoedd yn llawn dop o rosynnau o bob lliw a llun er mwyn cofio am chwedl Jordi, gŵr a laddodd ddraig er mwyn achub tywysoges, ag o waed y ddraig y tyfodd llwyn rhosynnau. Mae hwn yn ddiwrnod pwysig iawn yn yr ardal, a diwrnod perffaith i gael blas o'r hunaniaeth Catalan.

Mwynhewch! Passi-ho be!

# Llantrisant, Meisgyn a'r Groes-faen

*Gohebydd Lleol: Carole Willis*

**Hyrwyddo'r Gymraeg**

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Guilfoyle, prifathrawes Ysgol Gyfun Treorci am ennill Gwobr Addysgu Cymru 2009. Enillodd Mrs Guilfoyle wobr Llywodraeth Cynulliad Cymru am Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg mewn Ysgol.

Sefydlwyd y Gwobrau Addysgu gan yr Arglwydd Puttnam CBE ym 1998 er mwyn canolbwyntio ar weithwyr proffesiynol ysbrydoledig sy'n eu gwneud hi'n bosibl i ddisgyblion gyflawni llwyddiant.

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r ardal a gymerodd ran yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd mis diwethaf.

Llongyfarchiadau arbennig i Elin Llywelyn Williams, Brynsadler, arweinydd corau Ysgol Gymraeg Bodringallt ac Adran y Cwm am ei llwyddiant yn yr Eisteddfod. Daeth Parti Unsain Ysgol Bodringallt a Chôr Adran y Cwm yn 1af a Chôr Ysgol Bodringallt yn 3ydd. Da iawn Elin a'r plant!

**John Morris**
**Tŷ Isaf, Meisgyn**

Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth John Morris, Tŷ Isaf, Meisgyn a fu farw ar 19 Mehefin wedi gwaeledd hir.

Roedd John yn hanu o Dal-y-bont, Ceredigion ac yn wyddonydd wrth ei alwedigaeth. Yn ystod ei yrfa ddarlithio yn Nhrefforest gwelodd yr Ysgol Fwyngloddio yn troi'n Goleg Technoleg Uwch, yna'n Bolytechnig Cymru ac yna'n Brifysgol Morgannwg. Ffiseg oedd ei bwnc; bu'n arbenigo ar sain peiriannau awyrennau a oedd yn cael eu hatgyweirio i British Airways yn eu gwaith yn Nantgarw.

Ni fydd llawer o ddarllenwyr y Tafod yn cofio cyfraniad cynnar John i fywyd Cymraeg yr ardal hon, ond gyda Mererid ei wraig, roedd yn un o'r criw a aeth ati flynyddoedd lawer yn ôl i sefydlu Cymdeithas Gymraeg Llantrisant, ac i osod sylfeini'r ysgol feithrin ac Ysgol Gymraeg Tonyrefail, cyn dyddiau Ysgol Gymraeg Llantrisant.

Roedd John yn gymeriad o'r iawn ryw, a byddwn yn cofio ag edmygedd am ei ofal tyner am Mererid a'i ffyddlondeb iddi yn ei gwaeledd creulon.

Gyda'i gilydd magodd y ddau dyaid o blant disglair yn Nhŷ Isaf, y cartref a gododd John ei hun iddynt. Cydymdeimlwn yn fawr â Catrin, Iestyn, Iwan, Manon a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.



**Cennin yn cefnogi'r Llewod yn Ne Affrig Robert Lamb o Lantrisant sydd ar y dde.**

# Newyddion Dysgwyr Morgannwg

Mae hi'n ddiwedd tymor ac yn ddiwedd blwyddyn arall o ddysgu ac mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn gan fod pob arholiad o'r safon Mynediad i'r safon Uwch wedi cymryd lle yn ystod pythefnos ola'r tymor. Eleni roedd dros 200 o ddysgwyr yn gwneud arholiadau yn ardaloedd Morgannwg, Merthyr, a Phen-y-bont.

Mae ein clybiau darllen yn dal i gwrdd ac yn mwynhau sgwrsio a thrafod llyfrau a gobeithir dechrau un arall yn ardal Treorci yn yr Hydref. Mae'r clybiau cinio hefyd yn mynd o nerth i nerth – dros fisoedd yr haf bydd Clwb Cinio Pen-y-bont yn cwrdd yn nhafarn y Toby Inn, Heol y De, Pen-y-bont.

Ddydd Sadwrn 13 Mehefin aeth y Clwb cerdded am daith fendigedig uwchben Parc Gweledig Cwm Dar. Derec Stockley oedd yn arwain ac roedd yn adnabod yr ardal yn dda a chawson ni lawer o wybodaeth hanesyddol ddiddorol iawn am yr ardal. Roedd hi'n ddiwrnod heulog braf tra ro'n ni'n cerdded felly roedd yn bosibl gweld golygfeydd godidog o'r cwm islaw o dopiau'r mynyddoedd. Braf hefyd oedd croesawu wynebau newydd i'r Clwb – nifer ohonyn nhw wedi darllen amdano yn eu papurau bro lleol.

Nos Iau 18fed o Fehefin cafwyd pryd o fwyd i ddathlu diwedd y flwyddyn ddysgu ym Merthyr. Roedd nifer sylweddol wedi dod ynghyd i fwynhau bwyd Indiaidd a'r gwestai oedd Gillian Elisa. Roedd hi'n llawn hwyl ac wedi ein difyrru gyda'i hanesion - yn ystod yr wythnos roedd wedi bod yn gweithio ar raglenni Gavin and Stacey, Casualty yn ogystal â Phobol y Cwm felly roedd tipyn o newyddion gyda hi. Fel dwedodd rhywun wrtha i ar ddiwedd y noson 'Ma hi wedi gwneud y nos'. Bydd Gillian yn westai mewn tri phryd eto yn ardaloedd Treorci, Pen-y-bont a Phont-y-clun.

Dyma ddigwyddiadau'r misoedd nesa – am fwy o wybodaeth am unrhyw beth cysylltwch â Shân: 07990578407 neu smorgan2@glam.ac.uk

GORFFENNAF

1 – Taith i'r Ardd Fotaneg yn Llanarthne – pris £10

3 – Paned a Chlonc - Amgueddfa ac Oriel Aberdâr – 2.30

3 - Pryd o fwyd diwedd tymor yn Heveli, Cedcae Lane, Pont-y-clun

7 - Clwb Cinio Pont-y-clun – Caffi Just Because - 1 o'r gloch

8 – Taith feicio ar hyd llwybr y Mileniwm – gadael Pontypridd am 9 o'r gloch

9 - Clwb Darllen Pen-y-bont - llyfrgell Coed Parc - 10 o'r gloch

10 - Clwb Cinio Porthcawl – tafarn y Royal Oak – 1 o'r gloch

11 - Clwb Cerdded – 10.30 – Treorci – cwrdd tu fas i' r clwb rygbi

13 - Clwb Darllen Hirwaun – YMCA - 2 o'r gloch

15 – Clwb Cinio Pen-y-bont -12 o'r gloch Toby Carvery, South road, Pen-y-bont

23 - Clwb Darllen Pen-y-bont - llyfrgell Coed Parc - 10 o'r gloch

27 - Clwb Darllen Hirwaun – YMCA - 2 o'r gloch

AWST

4 - Clwb Cinio Pont-y-clun – Caffi Just Because - 1 o'r gloch

6 - Clwb Darllen Pen-y-bont - llyfrgell Coed Parc - 10 o'r gloch

7 - Paned a Chlonc - Amgueddfa ac Oriel Aberdâr – 2.30

10 - Clwb Darllen Hirwaun – YMCA - 2 o'r gloch

14 - Clwb Cinio Porthcawl – tafarn y Royal Oak – 1 o'r gloc

19 - Clwb Cinio Pen-y-bont -12 o'r gloch Toby Carvery, South road, Pen-y-bont

20 - Clwb Darllen Pen-y-bont - llyfrgell Coed Parc -10 o'r gloch

24 - Clwb Darllen Hirwaun – YMCA - 2 o'r gloch

25 – Taith i'r Tŷ Crwn St Hilary a'r ardd berlysiau yn y Bontfaen

# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

**Pen-blwydd Hapus**

Pen-blwydd hapus iawn i un o ddarllenwyr selocaf y Tafod yn Nhonyrefail, Miss Vida Morgan. Dathlodd ei phen-blwydd yn naw deg oed ar 30 Mehefin. Yr oedd yn un o hoelion wyth Capel y Ton cyn iddo gau ac mae llawer ohonom yn ddyledus iawn iddi am mai hi oedd Pennaeth Ysgol Gynradd Saesneg Tonyrefail. Mae'n dal i fod yn weithgar yn y gymuned. Un o'r pwyllgorau y mae'n aelod ohono yw'r grŵp sy'n codi arian ar gyfer ymchwil cancr ac aeth ei ffrindiau yn y grŵp hwn â hi allan i ginio ym mwyty'r Long Bow i ddathlu.

Pen-blwydd hapus i chi oddi wrth holl ddarllenwyr Tafod Elái.

**Twf Addysg Gymraeg**

Bydd 38 o blant yn mynd i mewn i'r ysgol Gymraeg ym mis Medi sy'n golygu y bydd 240 yn yr ysgol ac felly'r ysgol yn llawn. Mae hon yn stori rydym yn ei chlywed dro ar ôl tro yn yr ardal y dyddiau hyn. Yn ddi-os, y mae addysg Gymraeg ar gynnydd unwaith eto ac mae angen sicrhau bod pob un sy'n dewis addysg Gymraeg yn gallu cael yr addysg honno, yn Nhonyrefail ac yn y sir yn gyfan.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Hwyl Fawr a Diolch**

Rydym yn ffarwelio â dau aelod o'r staff ar ddiwedd y tymor ac mae pawb yn yr ysgol yn drist iawn – mae Mrs Ann Owen yn ymddeol ar ôl bod yn rhan o deulu'r ysgol ers Pasg 1974! Mae wedi dysgu sawl cenhedlaeth o blant Tonyrefail ac mae ei gofal drostynt wedi bod yn ddiflino ar hyd y blynyddoedd. Mae Mr Mark Rees yn ein gadael i ymgymryd â swydd pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn ar ôl bod yn gapten ar y llong yma am wyth mlynedd. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd. Bydd colled fawr i ni fel ysgol ar eu holau.

Aeth aelodau o Flwyddyn 6 i feicio o Barc Treftadaeth y Rhondda i Bontypridd ddydd Gwener 19 Mehefin er mwyn dathlu Wythnos Beicio Cenedlaethol. Cafodd pawb hwyl, yn enwedig Mr Phillips a Mr Rees. Diolch yn fawr iawn i Gymunedau'n Gyntaf am drefnu'r gweithgaredd. (Llun ar dudalen 13).

Daeth Theatr Spectacl i'r ysgol er mwyn perfformio 'Garddwr y Gwanwyn' i blant blynyddoedd 4, 5 a 6. Cafodd pawb brynhawn hyfryd – diolch o galon i CraCH am helpu gyda'r gost.

**Twrnament Rygbi Tag**

gan Gwynfor Dafydd, blwyddyn 6

Tra fod yr haul crasboeth yn sgleinio dros yr astroturf yn Ton Pentre, roedd 5 tîm (allan o'r 32 a gymerodd ran yn y rowndiau cyntaf) yn chwarae yn rowndiau terfynol twrnament rygbi tag Gleision Caerdydd a gafodd ei drefnu gan Chris James.

Roedd pob tîm yn cael 1 gêm o egwyl, yn anffodus roedd ein egwyl ni reit ar y dechrau, felly roedd rhaid i ni chwarae 4 gêm mewn rhes. Ond er hynny fe guron ni….

Bodringallt 3-2,
Tylorstown 3-2,
Ton Pentre 4-1.

Ar ôl y gemau yna roedden ni'n flinedig iawn. Roedd gyda ni un gêm ar ôl, yn erbyn Pen yr Englyn. Roedden ni'n colli hanner amser, Pen yr Englyn 2-1 Tonyrefail. Doedden ni ddim yn gallu ffeindio ein ffordd trwy amddiffyn Pen yr Englyn ac fe sgorion nhw 2 gais arall. Y sgôr derfynol oedd Pen yr Englyn 4-1 Tonyrefail.

Roedden ni'n nerfus iawn am y canlyniad terfynol. Roedd e rhyngddon ni a Tylorstown…..Ond pryd ddywedon nhw fod Tonyrefail wedi ennill fe neidion ni fyny yn yr awyr.

Rhoddodd Lou Reid a Morgan Stoddart o'r Sgarlets y darian a'r medalau i ni.

Roeddem yn falch iawn achos dyma oedd y tro cyntaf i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ennill Twrnament Rygbi Tag Gleision Caerdydd (noddwyd gan Wayne's World of Carpets).

Mae'r tîm eisiau diolch i Mr Rees am ein hyfforddi bob dydd Mawrth ar ôl ysgol ac am fynd â ni i'r twrnament.

# Wythnos Tafwyl

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

## Cynlluniau Gofal Gwyliau'r Haf

Fe fydd 3 Chynllun Gofal ar agor dros yr haf ar y dyddiadau isod.
Ysgol Treganna: Ar agor am 5 wythnos Gorffennaf 20 – Awst 21
Ysgol Melin Gruffydd: Ar agor am 5 wythnos Gorffennaf 20 - Awst 21
Ysgol Berllan Deg: Ar agor am bythefnos Gorffennaf 20 – Gorffennaf 31

Bydd llu o weithgareddau difyr o chwareon a chelf a chrefft i deithiau a choginio wedi'u trefnu. Rhaid cofrestru o flaen llaw. Am wybodaeth cysylltwch â Siwan – siwan@mentercaerdydd.org






Cynulleidfa fawr yn mwynhau Rachael a Gareth o CYW yn Tafwyl





## Cornel y Plant

**Yn y ffair:**
Beth mae Guto wedi ei brynu yn y ffair? Rhowch yr enw cywir wrth y llun.







Jamio:
Dw i wedi bod yn brysur iawn yn gwneud jam. Tybed fedrwch chi fy helpu i roi'r enwau iawn ar y potiau?



### Lliwio llun y wiwer




### Lliwio llun o lan y môr



# Croesair Col

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau




**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Gorffennaf 2009**

**Ar Draws**
1. Naddion (8)
6. Hynaws (4)
8. Difater (6)
9. Meirioli (6)
10. Hen iawn (11)
11. Yn nes (6)
14. Disg (6)
16. Tyrau atomig (11)
20. Rhesymu (6)
21. Profedig (6)
22. Mul (4)
23. Almanac (8)

**I Lawr**
2. Y wyddor (5)
3. Cain (7)
4. Defnydd ysgithr yr eliffant (5)
5. Llyfr nodiadau (7)
6. Ynys Môn, Gwlad y _ _ _ _ _ (5)
7. Cylchgrawn i'r rhai sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth (1,6)
12. Planhigyn sy'n gwneud gwlypter lliwio glaw (7)
13. Edrych am yn ddirgel (7)
15. Sychder (7)
17. Ar ôl hynny (5)
18. Fel maen nhw'n dweud yn Saesneg, Chwedl _ , _ _ _ _ (1,4)
19. Diwedydd (5)

## Atebion Mehefin




# Argyfwng Cylch Meithrin Creigiau

Rydym angen staff gyda chymhwyster lefel 3 neu gyn-athrawes feithrin (falle wedi ymddeol) a fyddai ar gael i weithio ym mis Medi er mwyn sicrhau dyfodol y Cylch. Mae'r staff presennol yn gadael ac mae'n RHAID i ni ddod o hyd i arweinydd gyda chymhwyster er mwyn cadw cofrestriad gyda cssiw (y corff arolygu)

Yr oriau fydd 9 - 12.30 ddydd Llun i ddydd Iau ac o bosib rhedeg y Ti a Fi ar fore Gwener.

Os oes gennych ddiddordeb neu yn adnabod rhywun sydd â'r cymhwyster cysylltwch a louise.knoyle@tesco.net, neu Rhian Boundy, 'Cysgod y Graig', Heol Pant y Gored, Creigiau, CF15 9 NF

Llongyfarchiadau i Ann Angell, Maes y Dderwen ar ei swydd newydd o fewn Mudiad Ysgolion Meithrin. Swyddog Datblygu Cynon Taf oedd Ann ond nawr mae wedi cael ei phenodi yn gydlynydd Rhondda, Merthyr a'r Fro. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd

Diolch yn fawr iawn i Mrs Amanda Impey am edrych ar ôl ein plant wrth groesi'r ffordd ar bwys ysgol Creigiau. Mae hi bob amser mor gyfeillgar ac yn cadw llygad barcud ar y plant

**Gwyl Feithrin Rhondda**
Cafwyd diwrnod llawn hwyl ar Fehefin 23 yng Ngŵyl Feithrin y Rhondda. Daeth Martyn Geraint a Igi, Tigi, Bip a Bob i Barc Margam i ddiddanu cannoedd o blant a rhieni y Rhondda. Cafwyd llawer o sbri yn crwydro o gwmpas y parc, mynd ar y tren ac roedd Sali Mali wedi galw heibio.

Teleri Jones
Swyddog Datblygu Rhondda Taf
Mudiad Ysgolion Meithrin

CYMORTH.COM

*Llinellau ffôn Cymraeg*

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i

**www.cymorth.com**

i gael y rhifau ffôn.

# Ysgol y Dolau

**Prosiect Perthnasau Diogel**
Roedd Dosbarth 7 a Class 6 yng nglŵm gyda chynllun newydd o'r sir, rhaglen o'r enw 'Building Safe Relationships'. Bwriad y gweithdai oedd magu perthnasau positif ac i fyfyrio ar eu perthynas gydag eraill ac ar eu teimladau eu hunain. Cafodd y plant hwyl wrth ymuno yn y gweithgareddau a oedd yn seiliedig ar deimladau, llefydd diogel ac agwedd bositif. Diolch i Nadine a Kate am y sesiynau.

**Diwrnod Tuduraidd**
Neuadd yr ysgol oedd lleoliad ein Gwledd Tuduraidd y tymor yma. Gwisgodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 i fyny mewn gwisg Tuduraidd a chawson nhw eu croesawu gan 'Master John' o'r cyfnod. Dysgon nhw am fywyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn ystod y bore gwrandawodd y plant ar Master John yn siarad am y brenhinoedd, cosb a throsedd, amodau byw a diddordebau'r cyfnod. Dysgon nhw hefyd ddawns draddodiadol ar gyfer y wledd yn y prynhawn. Yn ystod ail hanner y diwrnod cafodd y plant wybodaeth am fywyd y Tuduriaid tra oedd yr athrawon yn prysur osod gwledd fawr ar eu cyfer. Mwynhaodd pawb ddysgu am y cyfnod, ac roedd yn ddiwrnod i gofio!

**Sioe Diogelwch Ffordd y Brodyr Gregory**
Cafodd plant yr Adran Gymraeg gyfle ffodus i weld sioe wych gan y Brodyr Gregory. Yn ystod y perfformiad roedd yr athrawon a phlant yn canu a pherfformio gyda'r caneuon fuon eisoes yn dysgu nôl yn y dosbarthiadau. Mwynheuodd y plant yn fawr iawn, a dysgon nhw lawer am ddiogelwch y ffordd mewn ffurf hwylus iawn. Gobeithio wnawn nhw gofio'r negeseuon pwysig a chofio beth i wneud wrth ochr yr heol. Diolch yn fawr i'r Brodyr Gregory am y sioe.

**Pêl-droed**
Cymerodd yr ysgol ran mewn cystadleuaeth 6 bob ochr a drefnwyd gan New Directions lawr yng ngerddi Sophia yng Nghaerdydd. Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn - y ddwy gêm gyntaf yn gyfartal ac enillon yr olaf, felly'n gorffen yn ail yn eu grŵp.

**Rygbi**
Chwaraeodd y tîm yng nghystadlaethau terfynol ysgolion Pontypridd, 10 bob ochr yn Rhydfelen. Enillon nhw eu gêm gynderfynol yn erbyn Evan James a chwaraeon yn erbyn Heol y Celyn yn y gêm derfynol. Roedd yn gêm gyffrous iawn gyda Kristian Keeble yn sgorio 2 cais a chafodd eu trosi gan Morgan Llewellyn. 14-14 oedd y sgôr hanner amser! Yn anffodus Heol y Celyn oedd yn fuddugol erbyn y diwedd, ond da iawn am gêm wych gan y bechgyn ac am gyrraedd y gêm derfynol.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Ffarwelio a Gwellhad buan**
Rydym yn ffarwelio a dymuno'n dda i Mr Owain Williams ac yn diolch iddo am ei waith yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn dymuno gwellhad buan i Ms. Mandy Webb ar ôl ei thriniaeth yn yr ysbyty.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Megan Davies a'i gŵr Mostyn ar ddathlu eu priodas Ruddem yn ddiweddar.

**Diwrnodau arbennig yn yr ysgol**
Mwynheuodd plant dosbarthiadau 1 a 2 ddiwrnod Eidaleg yn yr ysgol. Cafodd y plant gyfle i wisgo dillad lliwiau baner yr Eidal ac addurno'u hetiau. Roeddent wrth eu boddau yn bwyta pitsa a hufen iâ i ginio cyn parhau a gweithgareddau Eidalaidd eu naws. Cafwyd cryn fwrlwm yn nosbarthiadau 3 a 4 wrth iddynt baratoi picnic ar gyfer eu tedis ar iard yr ysgol ar brynhawn Gwener braf.

**Siopa**
Aeth blwyddyn 6 i siopa yn Asda a Tesco tymor yma. Edrychon nhw ar ba ganran o gig sydd mewn selsig, faint o siwgr sydd mewn grawnfwydydd a faint o fraster sydd mewn pecynnau o greision. Hefyd, dysgon nhw pa dymheredd sy'n angenrheidiol ar ba fwydydd, sut i bobi bara a sut mae cynnwys bwyd yn effeithio'r pris. Aethon nhw ar daith o amgylch y stordai anferth a chael diod a do-nyt yn y caffi. Casglon nhw ddata diddorol iawn.

**BBQ**
Cafodd blynyddoedd 1 a 2 BBQ ar y cae fel rhan o'u gwaith thema. Gweithion nhw'n galed i greu baneri, posteri, gwahoddiadau, bwydlenni, mapiau a chyfarwyddiadau i'r wledd. Chwaraeon gemau traddodiadol a rhai wnaethon ddyfeisio eu hunain. Roedd digon o ddiod, bwyd a hwyl ar gael yn ystod y prynhawn!

**Antur Manor Park**
Aeth aelodau blwyddyn 5 a 6 ar benwythnos i barc antur Manor Park. Cawson nhw gyfleoedd gwych i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a gweithio fel tîm. Mwynheuodd pawb weithgareddau saethu, canŵio, dringo, cwrs rhwystr, adeiladu rafft, sgiliau bywyd - gan enwi rhai ohonynt. Glawiodd dros y penwythnos ond wnaeth hynny ddim niwed i hwyl a chyd-weithio'r plant. Penwythnos llwyddiannus iawn hoffai'r plant ac athrawon ail-wneud!

**Teithiau**
Bydd nifer o deithiau yn ystod y tymor yma gyda dosbarthiadau 3 a 4 yn mynd i'r goedwig yn Llanwynno ar helfa trychfilod; dosbarthiadau 5,6 a 7 yn mynd i'r Barri i lan y môr; dosbarthiadau 8 a 9 yn cael cyfle i ddarganfod mwy am fywyd Rhufeinig yng Nghaerllion; dosbarthiadau 10 ac 11 yn mynd i arddangosfa gelf yn Aberhonddu; dosbarth 12 yn mynd i Barc Treftadaeth y Rhondda i ymchwilio i fywyd yn oes Fictoria a dosbarthiadau 13 ac14 yn mynd i aros yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd ar eu trip olaf yn yr ysgol, lle bydd cyfle iddynt weld sioe ac ymweld â fferm Amelia.

**Ymwelwyr**
Daeth Stephen Attwell atom unwaith eto, y tro yma i adrodd hanes yr Ail Ryfel Byd. Mwynheudd y plant berfformiad bywiog gan Mr Attwell a chael eu diddanu ganddo gan eu bod wedi astudio'r cyfnod yn fanwl. Rydym yn ddiolchgar unwaith eto i Mr Brian Davies am ddod i'r ysgol i siarad am newidiadau ym Mhontypridd gyda dosbarth 5 ac am drafod hanes Dr William Price gyda dosbarthiadau 10 ac 11.

**Y Côr**
Nos Wener, Mai'r 22ain bu côr yr ysgol yn canu mewn cyngerdd yng Ngholeg Cyncoed. Noson i ffarwelio â'r myfyrwyr tramor ydoedd, er mwyn iddynt gael blas ar ddiwylliant Cymreig cyn dychwelyd yn ôl i'w teuluoedd a'u cartrefi dramor. Bu Siân Jones yn ddewr iawn i berfformio unawd ac mi gafwyd dilyniant o eitemau traddodiadol a chyffrous gan y côr. Cafwyd lluniaeth wedi gorffen yn ogystal â chyfle i dynnu lluniau o'r plant yn eu gwisgoedd Cymreig gyda'r myfyrwyr. Diolch i Miss Jones am ei gwaith caled.

**Y Mabolgampau a Chwaraeon**
Byddwn yn cynnal ein mabolgampau blynyddol ym Mharc Ynysangharad eto eleni ar ôl llwyddiant y llynedd.

Llongyfarchiadau i Jac Jenkins am ei lwyddiant ar ennill medal arian gyda thîm tenis bwrdd Tonyrefail mewn cystadleuaeth yn Llundain yn ddiweddar.

Ar ôl rhagbrofion i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 aeth y plant buddugol i gystadlu mewn gala nofio yn Y Ddraenen Wen. Bu cystadlu brwd a chipiwyd nifer o fedalau; Matthew Iles- 3ydd (ras bechgyn blwyddyn 3), Kate Jones- 1af (ras merched blwyddyn 3), Ieuan Davies- 2il (ras bechgyn blwyddyn 4), Gareth Paynes 3ydd (ras bechgyn blwyddyn 6), Seren Harris- 1af ( ras merched blwyddyn 6) Rasys cyfnewid tîm bechgyn sef Matthew Iles, Ioan Payne, Gareth Panes a Nathan Jones- 2il, rasys cyfnewid tîm y merched sef Carys Williams, Kate Jones, Mia Pitman a Seren Harris- 1af. Diolch i Jessica Parfitt a Gruffydd Rees am fod yn eilyddion ac i Amy Williams, Siân Jones, Lowri Durham a Melissa Pardoe am ddosbarthu'r gwobrau yn eu gwisgoedd Cymreig. Da iawn i chi i gyd.

## Lluniau

## Ysgol Evan James



Sioe am yr ail rhyfel byd gan Stephen Attwell



Plant y feithrin yn mwynhau diwrnod Eidaleg



Ymwelwyr yn Ysgol Evan James

## Lluniau Ysgol y Dolau



Antur Manor Park



Tîm Rygbi 10 bob ochr



Tîm pêl-droed 6 bob ochr



Taith feicio Blwyddyn 6 Ysgol Tonyrefail

JOB TRAC CYMRU

**Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg**

Canolfan Datblygu Busnes,
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest,Pontypridd, CF37 5UR,
ffôn: 01443 843800,
www.jobtraccymru.com
www.safleswyddi.com

*Edrych am waith?*
*Defnyddiwch eich iaith*

# YSGOL GYFUN GARTH OLWG

**Enillwyr Logo Ysgol**
Llongyfarchiadau mawr i'r holl rai wnaeth gystadlu yn y gystadleuaeth logo. Roedd llawer iawn o ddyluniadau gwych iawn. Dyma rester o'r enillwyr:

Alaw Griffiths Bl 6
(Ysgol Gynradd Evan James)
Deri Morgan Bl.7
Hollie Davies Bl. 8
Aimee Christopther – Jones Bl. 9
Lloyd Phillips Bl. 10
Elinor Washington Jones Bl. 11
Thomas Gazzard Bl. 12

Da iawn chi! Maent i gyd wedi derbyn talebau siopa gwerth £15.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau i Jamie Burch o Flwyddyn 8. Mae Jamie wedi llwyddo i gael rhan mewn hysbyseb deledu ar gyfer y cwmni "EDF Energy". Da iawn ti!

**Pêl-fasged**



Rydw i wedi cael fy newis i chware pêl-fasged dros Gymru o dan 16. Roedd yn rhaid i fi fynd am dreialon ar yr 2 o Fai i UWIC yng Nghaerdydd, ac yr oeddynt wedi para am bum awr. Tua thri diwrnod ar ôl y treialon clywais fy mod wedi cael fy newis i fod yn y tîm. Rwyf nawr yn edrych ymlaen at yr ymarfer cyntaf gyda gweddill y tîm.

**Llwyddiant Cerddorol**



Llongyfarchiadau mawr i Gwern Parri o Flwyddyn 10 am gipio'r ail wobr yng nghystadleuaeth gerddorol "Going Solo" a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Rhoddodd Gwern ddatganiad ar y ffidl i dderbyn y clod. Bu'n cystadlu dros yr Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd eleni hefyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Stephanie Jenkins, Blwyddyn 10 a Carwyn Roberts, Blwyddyn 8 am berfformiadau arbennig yn yr un gystadleuaeth. Da iawn chi! Bu Stephanie hefyd yn cynrychioli'r Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd.



**Stephanie Jenkins**



**Carwyn Roberts**

**"Byscio Ffiseg"**
Pe baech chi wedi crwydro i lawr 5 yr Ysgol yn ystod yr wythnos cyn yr hanner tymor mis Mai, byddech chi wedi clywed synau digon rhyfedd yn dod o gyfeiriad y Labordy Ffiseg! Ymysg y chwerthin a'r hwyl roedd synau amrywiol eraill hefyd a phe baech chi wedi rhoi eich pen o gwmpas y drws fyddech chi wedi gweld rhai offer pur anghyffredin! Beth yn y byd oedd yn digwydd yno?? Darllenwch ymlaen . . !

Dydd Llun 11 o Fai aeth Catrin Ebbsworth, Aled Humphreys, Lewys Mann a Sarah Richards o Flwyddyn 10 i Ganolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd. Yno buont yn cymryd rhan mewn gweithdy gan gynrychiolydd "Science made Simple" ar "Byscio Ffiseg", cymysgedd o ddiddanu ac addysgu gan ddefnyddio arbrofion a thriciau syml.

Ar ôl ymarfer (a thipyn o chwarae!) gyda'r holl offer y buont yn eu datblygu yn yr Ysgol dros yr wythnosau blaenorol, roeddynt yn barod i swyno aelodau'r cyhoedd ar faes Eisteddfod yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm. Efallai i chi weld - neu glywed y gwyddonwyr ifanc wrth Gaffi Crema ddydd Llun yr Eisteddfod - roedd rhai o'r arbrofion yn bur swnllyd. Roedd ymateb y plant iau a'u rhieni i ddisgyblion uwchradd yn hyfryd i weld, ac roedd y sgiliau cyflwyno a ddysgwyd yn y gweithdy wedi bod yn amlwg wrth i bawb gael hwyl.

Diolch i Leah Owen, swyddog yr Urdd a Dr Angharad Thomas, Swyddog y Sefydliad Ffiseg yng Nghymru am drefnu'r arbrawf a benthyg yr offer.

**Ar Ben ei Digon!**



Llongyfarchiadau mawr i Gabrielle Hughes-Sully, Blwyddyn 7 sydd wedi cael tymor a hanner eleni. Mae Gabby yn chwaraewraig pêl-droed o fri ac yn ystod mis Mehefin cafodd 3 anrhydedd arbennig. Yn gyntaf cafodd ei dewis i dîm pêl-droed merched Cymru dan -12, sy'n dipyn o gamp ynddo'i hun! Wedyn cafodd glywed iddi gael ei dewis i fod yn aelod o'r 'Trust Squad' yr FAW – mae hyn yn golygu bod Gabby yn cael ei hadnabod fel chwaraewraig dalentog iawn a nawr bydd yn cael ei hyfforddi yn arbennig iawn fel y gall ymhen tair blynedd ennill ei Chap llawn. Yna i goroni'r cyfnod hynod gyffrous hwn, dewisiwyd Gabby yn Chwaraewraig y Flwyddyn gan chwarawyr ei thîm sef, Trefforest. Diwedd gwych i dymor hynod lwyddiannus Gabby – da iawn ti!

**Dawnswyr o Fri!!**
Llongyfarchwn ddisgyblion yr ysgol sydd yn aelodau o Adran Bro Taf ar eu llwyddiannau dros y misoedd diwethaf! Cawsant lwyddiant mawr yn yr Ŵyl ym Majorca ym mis Mai ac eto yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Tristan Gruffudd ar ddod yn ail yn y Dawns Unigol i fechgyn – stepio gwych Tristan!

**Miri Mathemateg!!**
Ddydd Iau 18 Mehefin cafodd Blwyddyn 8 diwrnod wrth eu bodd. Er eu bod yn yr ysgol doedden nhw ddim yn dilyn yr amserlen arferol! Cawsant ddiwrnod arbennig iawn a oedd yn llawn chwarae - dysgu drwy chwarae gemau Mathemateg a chydweithio fel timau i ddatrys problemau. Roedd yn ddiwrnod cyffrous iawn a mawr oedd yr hwyl yn y canolfannau dysgu gwahanol. Diolch i'r Adran Fathemateg am drefnu'r diwrnod !

**Blwyddyn 6 yn symud i fyny!**
Bydd digwyddiad cyffrous iawn ar Gampws Garth Olwg ym mis Medi. Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn symud i fyny i'r ysgol uwchradd flwyddyn ynghynt fel petai, ac yn cael eu dysgu ar safle Ysgol Gyfun Garth Olwg.

Drwy ddatblygu'r trefniant hwn mae'r Campws hefyd yn sicrhau y bydd y rhieni hynny sydd am i'w plant elwa o addysg feithrin Gymraeg yn gallu cael mynediad i hynny yn Ysgol Gynradd Garth Olwg.

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu Blwyddyn 6 ar draws y lawnt ym mis Medi!

## Gwefannau Cymraeg

www.cymorth.com
www.gwefan.org
www.tafelai.com
www.caerdydd.biz
www.tabernacl.com
www.menteriaith.org
www.gwe-bethlehem.org
www.urdd.org
www.mentercaerdydd.org
www.bwrdd-yr-iaith.org
www.banglacymru.org.uk

# Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

**Pêl-rwyd**
Mae'r tîm pêl-rwyd wedi bod yn ffodus iawn eleni wrth dderbyn arian gan gwmni COSTAIN i brynu cit pêl-rwyd newydd. Mae siwmperi, crysau polo a sgertiau newydd gan y tîm, yn ogystal â digon o beli i ymarfer. Edrychwn ymlaen at wisgo'r cit newydd mewn nhwrnarnent yn Ysgol Gyfun Garth Olwg ar ddechrau'r mis. Diolch yn fawr i COSTAIN am eu cyfraniad hael.

**Ymweld â'r ymlusgiaid**
Mwynheuodd ddosbarth Miss MacDonald eu hymweliad ag Ysgol Gyfun Garth Olwg ble gwelsant amryw o ymlusgiaid. Gwelodd y plant frogaod, pysgod, madfall, a moch cwta. Ond ffefryn y plant oedd cael cwrdd â'r neidr! Roedd pawb yn ddewr iawn yn cyffwrdd a'i ddal. Diolch o galon i'r holl athrawon a disgyblion am eu croeso cynnes ac yn bennaf i Mr Llŷr Evans am ein gwahodd ni draw.

**Ymwelwyr o India**
Braf oedd cael croesawu athrawon o India i'n hysgol ar ddechrau mis Mehefin. Fel rhan o'r cynllun 'UKIERI', fe fuodd yr athrawon o India yn ymweld â'n hysgol ni, Ysgol Gynradd Malpas Court yng Nghasnewydd, Ysgol Gynradd Maes yr Haul, Penybont ac Ysgol Gilwern, Sir Fynwy. Tra yma, gwyliodd yr ymwelwyr athrawon yn dysgu a siaradon nhw gyda'r plant am eu cartrefi yn Jamshedpur. Roedd y plant wrth eu bodd yn dysgu mwy am fywyd yn Jamshedpur gan eu bod eisoes wedi derbyn gwybodaeth a lluniau oddi wrth y plant yn India.

Cynhaliwyd cyngerdd yn y Ganolfan Gydol Oes pan ganodd y côr a chwaraeodd y gerddorfa. Yn ogystal perfformiodd aelodau o Adran Bro Taf ddawnsfeydd arbennig. Ar y nos Fercher, daeth y pedair ysgol ynghyd yn Ysgol Gynradd Malpas i berfformio eto. Roedd pawb yn wych, ac roedd y bwyd ar ôl y gyngerdd yn flasus iawn.

**Tŷ Bwyta y 'Bunch of Grapes'**
Diolch o galon i'r staff yn nhŷ bwyta y 'Bunch of Grapes', yn bennaf Nick Otley, am baratoi amrywiaeth o fwydydd traddodiadol Cymreig ar gyfer ein hymwelwyr o India am ddim. Roedd y bwyd yn fendigedig!

**Gweithgareddau cerddoriaeth yr ysgol**

Mae'r plant wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn ystod gwyliau'r Sulgwyn, bu'r gerddorfa yn perfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Perfformiwyd "Calon Lân" a "Dr Who" i safon uchel gan y plant, yn enwedig gan fod y gerddorfa ond wedi ei sefydlu ers 5 mis. Ni chafodd y gerddorfa wobr ond roeddent wedi mwynhau'r profiad gwefreiddiol o berfformio yn y ganolfan.

Ar yr ail o Fehefin perfformiodd y côr a'r gerddorfa, ynghyd ag unawdwyr o'r ysgol mewn cyngerdd yng Nghanolfan Gydol Oes Campws Garth Olwg. Cynhaliwyd y gyngerdd er mwyn croesawu gwesteion o India yn ogystal â dathlu llwyddiannau diweddar yn yr Eisteddfod. Roedd amrywiaeth o eitemau - perfformiadau anhygoel Dawnswyr Bro Taf, unawdau telyn, grŵp recorder yn ogystal â'r côr a'r gerddorfa, ac roedd y cyngerdd yn llwyddiannus, a'r gynulleidfa wedi mwynhau'r wledd.

Ar y trydydd o Fehefin aeth deg o blant o'r ysgol – Eleri Roberts, Branwen Roberts, Olivia Sienawski, Darcy Vowles, Morgan Wood, James Warman, Joshua Porter, Bethan Putterill, Jessica Davies ac Osian Gruffydd - i Malpas Primary School, i berfformio gydag ysgolion eraill ar gyfer y gwesteion o India. Canodd y parti deulais Rhyfeddodau, Ceirios ac Yn Fy Mreuddwyd canodd Eleri unawd ffidil a chanodd Eleri a Branwen ddeuawd "Yr Hydref". Cafodd y plant ganmoliaeth mawr am eu lleisiau swynol ac aeddfed.

Ar y pedwerydd o Fehefin fe recordiodd gôr yr ysgol ei CD, Cân-Tastig. Dechreuodd y sesiwn yn gynnar yn y bore, gyda "Os wyt ddu neu os wyt wyn" wedi'i chanu gan yr ysgol gyfan yn cael ei recordio ac yna fe berfformiodd y côr naw cân arall. Mae'r CD ar werth erbyn hyn, y clawr wedi'i ddylunio gan Georgia Jenkins ym mlwyddyn 4. Os ydych am brynu copi, cysylltwch â'r ysgol.

Ar yr wythfed o Fehefin aeth y côr a'r gerddorfa i berfformio yng Ngŵyl Gerdd Rhondda Cynon Taf yn y Miwni ym Mhontypridd. Fe fwynheuon nhw'r profiad, yn enwedig gan iddynt allu gwylio perfformiadau amrywiol yr ysgolion eraill hefyd. Fel rhan o'r ŵyl bu Joshua Porter, Bethan Putterill a Bethan Horscroft-Preest hefyd yn cystadlu mewn cystadleuaeth unawd offerynnol, lle cafodd y tri ohonynt ganmoliaeth mawr gan y beirniaid - llongyfarchiadau iddynt.



**Recordio CD**

Diolch yn fawr i blant y côr a'r gerddorfa am eu hymroddiad a brwdfrydedd yn ystod y flwyddyn eleni – maent wedi cyflawni nifer fawr o bethau o fewn cyfnod byr o amser.

**Cwis Llyfrau yn Aberystwyth**
Ar ddydd Llun y 15fed o Fehefin bu plant blwyddyn chwech yn cystadlu yn rownd genedlaethol y cwis llyfrau. Roedd yr ysgol yn cynrychioli sir Rhondda Cynon Taf yn Aberystwyth. Fe berfformiodd y plant yn arbennig o dda can gyflwyno'r nofel 'Dŵr Afon Tirion', ac yn ogystal roeddent yn ateb cwestiynau ar y gyfrol 'Honco'. Llongyfarchiadau mawr i Erin Jones, Eleri Roberts, Elis Widgery, James Christopher, Gruffydd Bowen Jones a Rhys Swainston. Yn anffodus ni lwyddodd yr ysgol i gyrraedd y brig, ond roedd y profiad yn un fythgofiadwy i'r plant.



**Joshua Porter**



**Bethan Horscroft-Preest**



**Bethan Putterill**

# YSGOL GYFUN GARTH OLWG






Catrin Ebbsworth, Aled Humphreys, Lewys Mann a Sarah Richards yn y gweithdy Ffiseg ac yn mwynhau ar faes yr Eisteddfod.





Ymwelwyr o India





Miri Mathemateg

## Lluniau Ysgol Gynradd Garth Olwg



Tîm y Cwis Llyfrau



Cerddordfa'r Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd



Y Côr yng Ngŵyl Gerdd Rhondda Cynon Taf

